



barcud

CYLCHLYTHYR
Gaeaf 2022

Neges gan **Steve Jones** Prif Weithredwr y Grŵp

Cyfarchion y Tymor

Mae'r hydref wedi gwibio heibio ac wedi bod yn amser prysur dros ben i Barcud.

Mae'r cyfarfodydd cyffredinol blyneddol a'r cynadleddau wedi cael eu cwblhau am flwyddyn arall ac rydym yn prysur agosáu at chwarter olaf y flwyddyn fusnes.

Amser heriol yw hi i Barcud, a ninnau hefyd yn gorfod wynebu costau cynyddol defnyddiau adeiladu, offer, prisiau ynni a chostau byw. Eto, mae'n hyfryd gennyf adrodd bod cartrefi newydd wedi cael eu cwblhau a bod tenantiaid yn symud i mewn i gartrefi newydd, effeithlon o ran ynni ac o ansawdd uchel ar draws Ceredigion a Phowys. Mae'r tîm cynnal a chadw hefyd yn gweithio'n galed i roi atebion i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi hŷn i helpu pawb yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae mis Rhagfyr yn adeg lawen gyda theuluoedd yn dod at ei gilydd a chymunedau'n cynllunio digwyddiadau ac yn trefnu dathliadau ar gyfer tymor y Nadolig.

Eto, gall hefyd fod yn amser unig iawn i lawer. Bydd yr argyfwng costau byw hefyd yn golygu y bydd llawer yn teimlo'r straen ariannol yn fwy byth, adeg y Nadolig eleni, ac eitemau pob dydd yn cynyddu'n wyllt, a hynny'n golygu y bydd y

moethau a fwynheir fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn ar waelod y rhestr.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae tîm Cynnal yn Barcud wedi bod yn ymwneud â llawer o ddigwyddiadau a drefnwyd i gefnogi ein tenantiaid drwy'r amser heriol hwn.

Mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn wrth inni geisio sicrhau bod holl denantiaid Barcud yn cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae arnynt eu hangen i helpu â'r cynnydd mewn prisiau ynni a chostau byw. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddararu ichi yn y cylchlythyr hwn a rhai syniadau gwyb i arbed arian ar gyfer y Nadolig. Rwyf yn dymuno Nadolig llawen iawn ichi. Gwnewch yn fawr o unrhyw amser rhydd a'i dreulio'n ddoeth gyda'r bobl bwysig yn eich bywyd.

Cofiwch; mae tîm Barcud yma i helpu os oes arnoch chi angen cefnogaeth.

Nadolig Llawen

Steve



I Gysylltu â Barcud

Dros y Ffôn

Ffoniwch 0300 111 3030

Pwyswch 1 (tenantiaid TC blaenorol)

Gwasg 2 (tenantiaid blaenorol MWA)

Tenantiaid Newydd Barcud?

Eisiau gwybodaeth leol am ein gwaith?

Pwyswch 1: Os ydych yn byw yng

Ngheredigion

Pwyswch 2: Os ydych yn byw ym Mhowys

Trwy'r Post

Barcud, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan,
Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7HH

Ar-lein

barcud.cymru

Llenwch y ffurflen 'cysylltu â ni' o'n gwefan

Ebost: post@barcud.cymru

Facebook: Barcud

Twitter: @taibarcud

Ar y clawr:

Marilyn Farmer a Sonia Lawrence

Cymhorthfa Costau Byw

Bu tîm Cynnal yn cefnogi aelod seneddol San Steffan ac aelod seneddol Caerdydd Ceredigion â'r cymorthfeydd costau byw a gynhaliwyd yn Aberystwyth ac Aberteifi'n ddiweddar. Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bawb a thrwy weithio ar y cyd, gall tîm Cynnal ddarparu gwybodaeth ragorol a chefnogi ein tenantiaid a'u teuluoedd.

Gweler tudalennau 6 a 7 i gael gwybodaeth ddiweddar am y cymorth sydd ar gael. Os ydych am drafod eich pryderon, cysylltwch â Cynnal yn Barcud ar 0300 111 3030.

Cynhadledd y Tenantiaid

Cynhaliwyd Cynhadledd y Tenantiaid yn ddiweddar ar 20fed o Hydref yn Aberystwyth. Y thema eleni, a benderfynwyd gan denantiaid, oedd “Barcud – Yma i Helpu.”

Hyfryd oedd cwrdd wyneb yn wyneb unwaith eto ar ôl toriad o ddwy flynedd a pheth gwych oedd gweld cynifer o denantiaid yno.

Roedd agenda wirioneddol ddidorol a llawn gwybodaeth wedi cael ei threfnu gyda chyflwyniad gan William Jones - Cyngor Ar Bopeth Ceredigion am y cap prisiau ynni a'r help sydd ar gael.

Siaradodd Paul Clasby – Cadeirydd Grŵp Monitro Barcud (GMB), am eu gwaith nhw ac fel y mae eu hymwneud nhw â Barcud mor bwysig fel tenantiaid. Gofynnwyd hefyd i'r tenantiaid a oedd yn bresennol bleidleisio a oeddent yn fodlon i GMB barhau i'w cynrychioli am flwyddyn eto. Pleidlais ysgubol o blaid oedd hi i GMB barhau â'u gwaith caled.

Siaradodd staff o Barcud am fudd-daliadau a chymorth a sut y gall ein tîm “Cynnal” helpu'n tenantiaid ni i gyd.

Hefyd, mae Barcud yn defnyddio technolegau newydd fel LoRaWAN (Rhwydweithiau Ardal

Eang Cyrhaeddiad Pell) i helpu i wneud ein cartrefi'n fwy effeithlon a helpu tenantiaid mewn sefyllfaoedd bregus.

Rhoddodd Steve Jones, y Prif Swyddog Gweithredol, ddiweddariad am Barcud a'r blaenoriaethau cyfredol.

Cafodd tenantiaid gyfle hefyd i siarad â Steve Jones – y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr ac aelodau eraill o'r staff, am unrhyw faterion neu bynciau eraill.

Cafwyd cinio hyfryd a chyfle i ffrindiau hen a newydd gael newyddion ei gilydd ar ôl cymaint o amser ar wahân.

Diolch i GMB, pawb a ddaeth yno a'r rhai a roddodd gyflwyniad. Rydym yn disgwyl ymlaen yn eiddgar am gynhadledd y flwyddyn nesaf.



Cefnogi Pobl



F'enw i yw Rachel Haigh. Fi yw'r Cydlynnydd Hybiau Cymunedol i Barcud yng Ngheredigion a ariennir drwy'r grant cymorth tai. Fy swyddogaeth i yw annog lolfeydd ein cynlluniau gwarchod i fynd yn lle croesawgar i denantiaid a phobl leol gwrdd (50+ oed) i helpu i gael gwared ag unigrwydd, hybu lles meddwl a darparu cefnogaeth drwy sefydliadau megis Age Cymru Dyfed, Cyngor Ar Bopeth a llawer o rai eraill. Byddaf yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r cydlynwyr cynllun arferol, peth sy'n hyfryd gennyf gan fy mod yn cael ymweld â'r holl gynlluniau a dod i adnabod y tenantiaid i gyd, a finnu'n mwynhau hynny'n fawr.

Mae Swydd y Cydlynnydd Hybiau'n cael ei hariannu gan grant Cymorth Tai Cyngor Sir Ceredigion.

Neges gan Grŵp Monitro Barcud

Hyderwn eich bod yn dda, ac o gofio'r argyfwng costau byw presennol, rydym am eich atgoffa bod cymorth ar gael gan dîm Cynnal Barcud a Cyngor Ar Bopeth. Mae tîm Cynnal a Cyngor Ar Bopeth ill dau'n awyddus i'ch cynorthwyo lle gallant. Gellir cysylltu â thîm Cynnal ar 0300 111 3030. Da chi, peidiwch â dioddef yn ddistaw. Mae Barcud yno i helpu.

Hoffem ddiolch i'r tenantiaid a'r staff am eu presenoldeb a'u cefnogaeth yn ein Cynhadledd wyneb-yn-wyneb gyntaf i Denantiaid Barcud, y gwnaethom ei chynnal ym mis Hydref. Pleser hefyd oedd croesawu rhai o aelodau Bwrdd Barcud. Yn y gynhadledd, gwnaethom gyflwyno ein Hadroddiad Blynnyddol, sydd i'w gael ar wefan Barcud. Rydym yn ddiolchgar i'r tenantiaid a oedd yn bresennol am eu cydsyniad unfrydol i ganiatáu inni barhau â'n gwaith am y flwyddyn i ddod. Hoffem hefyd ddweud diolch enfawr wrth y tenantiaid am ganiatáu inni ddefnyddio £100 o arian y grŵp i brynu bocsys da-da a roddir i rai o'r Banciau Bwyd cyn y Nadolig.

Mae'r grŵp ar hyn o bryd yn edrych ar ddigwyddiadau'r flwyddyn nesaf a fydd yn cynnwys yr atborth o'r gynhadledd a cyn gynted ag y bydd hyn wedi'i wneud, rhoddir y digwyddiadau a'r dyddiadau ar gael drwy'r cylchlythyr hwn ac ar wefan Barcud. Rydym eisoes wedi cytuno mai ym Mhowys y bydd ein digwyddiad cyntaf yn y gwanwyn gan fod rhaid i bawb gael cyfle cyfartal i fynd i un o'n digwyddiadau.

Mae'r aelodau wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn adolygiad o wefan Barcud, a fu hefyd yn ystyried argymhellion gennych chi. Casglwyd eich awgrymiadau ynghyd o'r arolygon y buoch mor garedig â'u cwblhau yn ogystal ag argymhellion unigol. Mae eich safbwyntiau a'ch argymhellion chi o'r pwys mwyaf i Barcud a'r Grŵp gan eu bod yn helpu i wella'r gwasanaethau y bydd Barcud yn eu darparu inni.

Wrth inni ddynesu at y Nadolig, bydd y grŵp yn adolygu llawer o bolisiau yn barod ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016, sy'n dod i rym ar 1af o Ragfyr. Byddwn hefyd yn cyflawni ein gweithgareddau arferol, sy'n cynnwys cwrdd â'r Bwrdd, y Tîm Arweinyddol a'r Tîm Rheolaeth Weithredol. Mae bob amser lawer inni ei wneud a hoffem glywed gan denantiaid ym Machynlleth,

Llandrindod, Trefyclo a Rhaeadr Gwy, gan fod arnom angen aelodau o'r ardaloedd hynny ar hyn o bryd.


Dim ond un o'r ffyrdd y gallwch chi chwarae rhan gyda Barcud yw Grŵp Monitro Barcud. Os ydych yn byw mewn un o Gynlluniau Gwarchod Barcud, gallwch chi fynychu'r "Fforwm Gwarchod" ac os nad ydych am gymryd rhan ar lefel y Grŵp Monitro, gallwch o hyd ymuno â'r fforwm cartrefi (Pawb). Os oes arnoch chi eisiau gwybod mwy am y rhain, cysylltwch â Sue Thomas neu Alisa Cakebread ar 0300 111 3030 neu drwy post@barcud.cymru.

Yn olaf, cynhaliodd y grŵp ei Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar ddiwedd mis Hydref. Ailetholwyd Kelli Di Capri yn Ysgrifennydd y Grŵp, Vic Brown yn Is-Gadeirydd y Grŵp, Peter Deakin yn Drysorydd y Grŵp ac fe gefais innau f'ailethol yn Gadeirydd y Grŵp. Rydym yn ei gweld yn anrhydedd cael cefnogaeth ac ymddiriedaeth barhaus yr aelodau, ac fe barhawn i'ch gwasanaethu chi i gyd hyd eithaf ein gallu. Diolch enfawr i'r aelodau na allem wneud yr holl bethau a wnawn hebddynt ac i staff Barcud am eu cefnogaeth ac am ein trin ni fel aelod o Dîm Barcud.

Gan ddymuno pob hapusrwydd ac iechyd da ichi.

Paul Clasby

Cadeirydd, Grŵp Monitro Barcud.



GMB – Adroddiad Blynyddol

Mae Grŵp Monitro Barcud wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, y gallwch chi ei ddarllen ar ein gwefan barcud.cymru/monitoring-group/?lang=cy Os hoffech chi gael copi print neu un mewn unrhyw fformat arall, ebostiwch post@barcud.cymru neu cysylltwch â Sue Thomas, Uwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ar 0300 111 3030.



Dim rhegfeydd, os gwelwch yn dda!

Bydd ein tîm gwasanaethau i gwsmeriaid yn gweithio'n ddiflino i helpu tenantiaid ag ymholiadau a chynghor. Cofiwch, os gwelwch yn dda, mai â pherson byw yr ydych yn siarad ac na chaiff ieithwedd amhriodol, anfoesgar neu sarhaus ei goddef. Rydym yn deall eich bod chi, efallai, yn rhwystredig ond nid yr un sy'n ateb y ffôn ac yn ceisio'ch cynorthwyo chi sydd ar fai ac fe wnaiff bopeth posib i'ch helpu chi i fynd at y person iawn.

Fforwm Gwarchod – Y Nadolig – Christmas

Cafodd y Fforwm Gwarchod ddiwrnod gwych ym Mhenrodyn, Aberaeron yn ddiweddar. Daeth y tenantiaid o'r 10 cynllun gwarchod ynghyd ar gyfer eu dathliad Nadolig blynyddol – a nhwthau'n croesawu dod yn ôl at normalrwydd ar ôl 2 flynedd o gyfyngiadau Covid. Roedd pobl wrth eu boddau â'r bwffe Nadolig a gododd hwyliau parti ar bawb! Mae'r fforwm yn cael ei drefnu gan Tess Price, sy'n Gydlynnydd Cynllun, ac y mae'n agored i unrhyw un o denantiaid Barcud sy'n byw mewn cynllun gwarchod ar draws Ceredigion a Phowys. Galwch Tess ar 0300 111 3030 neu cysylltwch â'ch Cydlynnydd Cynllun os hoffech chi ymuno â'r criw hwyliog yma ar gyfer bore o weithgareddau, sgysiau a the!



Digwyddiad Chwarae Aberaeron



Cafodd pawb ddiwrnod gwych yn niwrnod hwyl Aberaeron yn ôl yn yr haf. Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan RAY Ceredigion fel diwrnod allan am ddim i'r teulu gyda gweithgareddau a digwyddiadau i bob oed.

Os ydych yn cynllunio digwyddiad yn eich cymuned chi yn 2023, rhowch wybod inni ac fe wnawn ein gorau i ddod i'ch cefnogi chi.

Diogelwch Ar-Lein

Hoffem atgoffa'r tenantiaid i gyd am beidio â rhannu gwybodaeth bersonol ar Facebook Messenger. Ni ddylai neb rannu dim manylion a allai gael eu defnyddio heb eich caniatâd chi. Llwyfan cyfryngau cymdeithasol yw hi ac ni hoffem ichi beryglu gwybodaeth bersonol.

Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes 2022/2023

Cymhwysra

Elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn – Grŵp Craidd 1

Rydych yn gymwys i dderbyn y gostyngiad os yw'r canlynol i gyd yn wir ar 21 Awst 2022:

- Mae eich Cyflenwr Ynni'n rhan o'r Cynllun.
- Chi (neu'ch partner) yw'r person wedi'i enwi ar y bil.
- Rydych chi (neu'ch partner) yn cael Credyd Gwarant Credyd Pensiwn (hyd yn oed os yw'n cynnwys yr Elfen Credyd Cynilion).

Ar Incwm Isel – Grŵp Craidd 2

- Mae eich Cyflenwr Ynni'n rhan o'r Cynllun.
- Chi (neu'ch partner) yw'r person wedi'i enwi ar y bil.
- Mae gan eich eiddo chi sgôr cost ynni uchel wedi'i seilio ar ei nodweddion.
- Rydych chi (neu'ch partner) yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd:
 - Budd-dal Tai
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn Seiliedig ar Incwm.
 - Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn Seiliedig ar Incwm.
 - Cymhorthdal Incwm.
 - Yr elfen 'Credyd Cynilion' o Gredyd Pensiwn
 - Credyd Cynhwysol

Gallech chi hefyd fod yn gymwys i dderbyn y Gostyngiad Cartrefi Cynnes os yw eich incwm o dan lefel benodol ac os ydych yn derbyn:

- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith.

Mae'r cynllun ar gyfer y ddau Grŵp Craidd yn agor ar 14 o Dachwedd 2022. Fe gewch chi lythyr rhwng Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023 yn dweud wrthyh chi am y gostyngiad os ydych yn gymwys.

Caiff y rhan fwyaf o aelwydydd cymwys ostyngiad awtomatig. Bydd eich llythyr yn dweud os oes eisiau ichi ffonio llinell gymorth erbyn 28 o Chwefror 2023 i gadarnhau'ch manylion.

Os ydych yn gymwys, bydd eich cyflenwr trydan yn gweithredu'r gostyngiad ar eich bil erbyn 31 o Fawrth 2023.

Gallwch chi ddal i fod yn gymwys i dderbyn y gostyngiad os ydych yn defnyddio mesurydd trydan rhagdal neu dalu wrth fynd ymlaen.

Os na chewch chi lythyr gan eich Cyflenwr Ynni ac os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gymwys cysylltwch â Thîm Cynnal ar 0300 111 3030

Grantiau Costau Byw

A ydych chi wedi derbyn eich holl Grantiau Costau Byw gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyngorau Sir Ceredigion/Powys?

Mae rhai tenantiaid wedi bod yn cysylltu â Thîm Cynnal (0300 111 3030) gan ddweud nad ydynt wedi derbyn eu Grantiau Costau Byw?

Os ydych chi'n meddwl bod gennych daliad ar goll cysylltwch â Thîm Cynnal ac fe helpwn ni chi i fynd ar ôl unrhyw beth a all fod ar goll.

Enghraifft

Mae Tîm Cynnal wedi cael galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan denantiaid sy'n derbyn Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dweud eu bod heb dderbyn £150.00 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Tîm Cynnal wedi mynd ar ôl y taliadau hyn i denantiaid i sicrhau nad ydynt ar eu colled.

Proses adnewyddu Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ôl-groniad difrifol o geisiadau PIP (mwy na 150,000 o achosion ar hyn o bryd).

Os oedd eich hawl i PIP i fod i gael ei hadnewyddu ar ôl mis Hydref 2022 bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn anfon llythyr atoch yn rhoi gwybod ichi fod Estyniad i'ch Hawl wedi cael ei wneud. Gall yr estyniad hwn fod hyd at 1 flwyddyn.

Os oes arnoch chi angen help â'ch Adnewyddiad PIP cysylltwch â Thîm Cynnal ar 0300 111 3030.

Wales & West Utilities – Y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol

Gofalu am y rhai mwyaf eu hangen

A oeddech chi'n gwybod bod gan bob cyflenwr nwy, dŵr a thrydan – y cwmnïoedd y bydwch chi'n talu'ch biliau iddynt, a'ch rhwydwaith dosbarthu trydan, Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol (CGB)?

Mae'r gofrestr hon yn helpu Wales & West Utilities i sicrhau eu bod wir yn gofalu am y rhai y mae arnynt ei angen fwyaf.

Pwy all ymuno â'r CGB?

Aelwydydd sydd â:

- Rhywun sydd mewn Oedran Pensiwn.
- Rhywun dan 5 mlwydd oed yn byw gyda nhw.
- Rhywun sy'n byw â chyflwr meddygol cronig neu sy'n anabl.
- Unrhyw anghenion penodol eraill megis nam ar y golwg neu'r clyw.

Gallwch chi gofrestru ar gyfer y cynllun hwn drwy fynd at:

wwutilities.co.uk/services/safe-warm/priority-customers/priority-services-register/

**Bydd swyddfeydd Barcud ar gau rhwng
5pm ddydd Gwener, 23ain o Ragfyr
9am ddydd Mawrth, 3ydd o Ionawr 2023**

Bydd tîm bach ar gael 'ar alwad' os bydd gennych broblem frys y mae angen atgyweirio arni yn eich cartref yn ystod wythnos y 26ain o Ragfyr. (e.e. atgyweiriadau a achosai ddifrod ychwanegol pe na baent yn cael eu trin yn gyflym – perygl o lifogydd, dim gwres, dŵr yn gollwng)
Bydd Atgyweiriadau Cyffredinol yn ailgychwyn ar 3ydd o Ionawr 2023.



Arolygu Ystadau

Gwnaeth aelodau o Grŵp Monitro Barcud arolygiadau ystadau yn Y Trallwng ar ddydd Iau 27ain o Hydref 22. Aeth y grŵp i chwe lleoliad gwahanol, felly tipyn o gerdded, ond yn bendant yn werth ei wneud. Gwnaethom ymweld hefyd â'r datblygiad newydd yng Nghwrt William Ainge. Hyfryd oedd gweld safon uchel y gorffeniad yn fewnol a'r libart prydferth oedd yn dal yr haul â'r gwelyau uchel a'r lleoedd eistedd.



Arolwg Bodlonrwydd Bach

Llawer o ddiolch i'r tenantiaid hynny a helpodd â'n harolygon diweddar, gan ddweud wrthym eich barn chi ar y gwasanaeth a ddarpara Barcud. Cwestiynau safonol Llywodraeth Cymru oedd y rhain a byddwn yn crynhoi ac yn adolygu'r canlyniadau i weld ar ba feysydd y mae rhaid inni ganolbwyntio i wella ein gwasanaeth. Fe gyhoeddwn ni'r canlyniadau yn ein cylchlythyr nesaf.

Fe gyflwynwn ni'r canlyniadau hefyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o ddatganiad blynyddol i'w cymharu â Chymdeithasau Tai eraill ledled Cymru. Bydd y canlyniadau hyn, yn ogystal â chanlyniadau o Gymdeithasau Tai eraill, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y Flwyddyn Newydd.

Os hoffech chi gymryd rhan mewn rhagor o arolygon ac adolygu'r gwasanaeth a ddarparwn, pam na wnewch chi ymuno â "Pawb" – y Fforwm Cartrefi, i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Sue neu Alisa ar 0300 111 3030 neu ebostiwnch – post@barcud.cymru

Oes Gennych Chi Yswiriant?

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi eitemau ychwanegol yn eu cartrefi dros gyfnod y Nadolig. Anrhegion, technoleg, bwyd ychwanegol - mae'r cyfan yn cyfrif. Sicrhewch fod gennych yswiriant cynnwys ar gyfer yr holl eitemau yn eich cartref.

Mae yswiriant tŷ'n cynnwys dwy elfen fel rheol - yr Adeiladau a'r Cynnwys. Yr Adeilad – Mae eich cartref gan Barcud (yr ADEILAD ei hun) wedi'i yswirio gan bolisi Barud. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw yswirio CYNNWYS eich cartref - eich eiddo personol. Mae'r eiddo hwnnw'n cynnwys pethau amlwg megis offer

trydanol, ond ydych chi erioed wedi ystyried sut y byddech yn prynu carpedi, llenni, dodrefn, dillad, dillad gwely, offer trydanol - a theganau hyd yn oed - pe bai unrhyw drychineb yn digwydd yn eich cartref? Gallwch brynu yswiriant ar gyfer cynnwys eich cartref gan froceriaid yswiriant lleol, neu gallwch chwilio am yswiriant ar-lein. Rydym yn argymhell bod pawb yn yswirio cynnwys eu cartref, oherwydd os bydd unrhyw beth yn cael ei ddwyn neu'i ddifrodi bydd yn rhaid i chi dalu am gynnwys newydd yn ei le.

Deddf Rhentu Cartrefi 2016

Beth y mae angen i chi ei wybod.

Mae Llywodraeth Cymru yn newid y gyfraith ynghylch sut y mae tenantiaid yn rhentu eiddo yng Nghymru. Mae'r newid yn berthnasol i landlordiaid preifat a chymdeithasol ledled Cymru.

Yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu:

- Bydd gennych fwy o hawliau olyniaeth i'w trosglwyddo o ran eich cartref
- Bydd tenantiaid yn cael eu galw'n ddeiliaid contract
- Bydd pob eiddo'n ddiogel ac yn addas i fyw ynddo
- Ni fydd y newidiadau'n effeithio o gwbl ar eich rhent ac ni fyddant yn costio mwy i chi
- Rhaid i landlordiaid roi 2 fis o rybudd i denantiaid am unrhyw gynnydd yn y rhent
- Bydd modd i eiddo y cefnwyd arno gael ei adfeddu gan landlordiaid heb orchymyn llys, cyhyd â bod ymchwiliadau wedi cael eu cynnal

Newid yn yr eirfa

Bydd tenant yn cael ei alw'n ddeiliaid contract (y person sy'n rhentu'r cartref)

Bydd cytundeb tenantiaeth yn cael ei alw'n contract meddiannaeth (y ddogfen a gewch pan fyddwch yn symud i mewn i'ch cartref newydd)

Pryd y bydd hyn yn digwydd?

Pan aiff y ddeddf yn fyw, bydd eich Cytundeb Tenantiaeth yn newid yn awtomatig yn Contract Meddiannaeth ac fe gewch gopi o hwn i'ch cofnodion chi.

A fydd fy rhent yn newid?

Na fydd

A fydd angen i fi wneud unrhyw beth?

Bydd yn rhaid i chi ddarllen y contract meddiannaeth newydd ac ymgyswrtio ag ef

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddeddf newydd, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae croeso i chi anfon ebost i post@barcud.cymru neu ffonio 0300 111 3030

Diogelwch Fflamau

- Peidiwch byth â gadael fflam agored heb ei goruchwyllo.
- Gwnewch yn siŵr bod canhwylau sydd ar gynnau wedi'u gosod ar arwyneb gwastad, saff a diogel priodol.
- Peidiwch â rhoi canhwylau ar bwys addurniadau/coed Nadolig.
- Cadwch ganhwylau a fflamau agored y tu hwnt i gyrraedd plant ac anifeiliaid.
- Byddwch yn ofalus wrth gynnau canhwylau a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu diffodd yn iawn cyn gadael yr ystafell/mynd i'ch gwely.
- Cofiwch y bydd canhwylau te'n mynd yn boeth iawn heb lestri priodol ac y gallant doddi drwy arwynebau plastig fel teledu neu fath.

Diweddariad ar Ddatblygu

Beth yr ydym wedi'i orffen?

Braf yw adrodd bod y rhaglen adeiladu o'r newydd ac ôl-osod yng Nghwrt William Ainge, Y Trallwng, wedi'i chwblhau. Mae'r trawsnewidiad yn ysblennydd. Cyflawnwyd y gwaith i Barcud gan Mid Wales Property Ltd ac y mae'n darparu 15 fflat PassivHaus wedi'u hadeiladu o'r newydd sy'n cynnwys llety 1 a 2 ystafell wely. Mae'r gwaith i wella'r fflatiau a oedd eisoes yno hefyd wedi'i gwblhau, gan gynnwys ynysiad waliau allanol, system wresogi a ffenestri newydd. Mae'r gwaith wedi gwella'n sylweddol effeithlonrwyd y fflatiau o ran ynni a'u costau rhedeg i breswylwyr, yn ogystal â gwella golwg Cwrt William Ainge yn gyffredinol.



Mae'r datblygiad ym Maes Y Cledrau yn Llansanffraid-ym-Mechain wedi cael ei gwblhau gan Pickstock Homes ar ran Barcud. Datblygiad deiliadaeth gymysg o dai a byngalos 1, 2, 3 a 4 ystafell wely yw hwn, gydag 16 o feddiannau rhent gymdeithasol a 10 o feddiannau Rhentu i Berchnogi. Mae'r tai wedi bod yn boblogaidd iawn, ac mae wyth o'r deg tŷ Rhentu i Berchnogi eisoes wedi cael eu gosod.



Mae Llety'r Eos, y bloc o fflatiau newydd ac arloesol yn Heol Dinas, Penparcau, a adeiladwyd gan Williams Homes (Bala) ar ran Barcud, hefyd wedi cael ei gwblhau. Mae'r safle hwn, lle bu garegys gynt, wedi cael ei drawsnewid yn floc trawiadol o 9 fflat effeithlon o ran ynni, pob un â'i le parcio i ffwrdd o'r stryd a'i fan amwynder ei hun. Mae'r datblygiad hefyd wedi darparu

lleoedd parcio ychwanegol i ffwrdd o'r stryd a dau fan gwefru ar gyfer cerbydau trydanol at ddefnydd cyffredinol ar hyd Heol Dinas a fydd o fudd i breswylwyr presennol a'r gymuned leol ehangach.



Beth sydd gennym ar y gweill ar hyn o bryd?


Mae TR Jones yn agosáu at y camau olaf mewn datblygu'r 3 thŷ ym Maes Llanio, Blaenplwyf i Barcud. Bydd y datblygiad hwn hefyd yn darparu lleoedd parcio ychwanegol i ystad Maes Llanio, ac y mae ar y ffordd i gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn Heol Dinbych-y-Pysgod yn Aberteifi mae gwaith yn mynd ymlaen ar gynllun ar gyfer 6 o gartrefi, a Gawnen Construction yn bartner contractio inni. Mae'r adeileddau ffrâm goed bellach yn cael eu codi ar y safle. Bydd y datblygiad yn darparu 4 cartref teuluol dwy ystafell wely a 2 o rai pedair ystafell wely, a'r rheini i gyd i safonau uchel o ran effeithlonrwyd ynni (TPY A).

Mae Trem Y Ffridd yn Nhrefaldwyn bellach yn mynd ymlaen, a rhai sylfeini wedi'u cwblhau. Bydd 33 o anheddau ar y safle (tai a byngalos 1, 2, 3 a 4 ystafell wely) sy'n cael eu hadeiladu i Barcud gan Pickstock Homes.

Mae Miller's Place (safle Travis Perkins gynt) yn y Drenewydd yn mynd rhagddo'n dda, a'r gwaith ar y sylfeini wrthi'n cael ei wneud. Y cynnig yw 38 o fflatiau PassivHaus 1 a 2 ystafell wely wedi'u lleoli'n gyfleus yn agos at ganol y dref. Mae'r datblygiad yn cael ei gyflawni gan Mid Wales Property Ltd.


Mae Maes Dulais yn y Drenewydd yn gwneud cynnydd da gan SJ Roberts ar ran Barcud, a'r gwaith i darmacio'r ffordd wedi'i gwblhau. Safle mawr deniadol yw hwn ar gyrion y Drenewydd a fydd yn darparu 37 o anheddau yn y Cyfnod cyntaf. Y mae cymysgedd da ynddo o dai a byngalos 1, 2, 3 a 4 ystafell wely.

**barcud****DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**
MEDI 2022**Ôl-Ddyledion Tenantiaid Presennol**

Gwerth Presennol

2.34%


Targed Presennol

1.99%↑
Tuedd**Nifer Cyfartalog o Ddiwrnodau i Ailosod Eiddo**

Gwerth Presennol

38

Targed Presennol

40↑
Tuedd**Atgyweiriadau Adweithiol; Swyddi a Gwblhawyd o fewn y targed - Di-argyfwng**

Gwerth Presennol

83.1%


Targed Presennol

90%↑
Tuedd**Atgyweiriadau Adweithiol; Swyddi a Gwblhawyd o Fewn y Targed - Argyfwng (24 awr)**

Gwerth Presennol

94.5%

Targed Presennol

96%↑
Tuedd**Eiddo Heb Dystysgrif Diogelwch Nwy Cyfredol**

Gwerth Presennol

0

Targed Presennol

0↑
Tuedd**Bodddhad Cwsmer - Atgyweiriadau**

Gwerth Presennol

96%

Targed Presennol

97%↑
Tuedd**Cwynion Heb Ymateb Iddynt yn Unol â Pholisi**

Gwerth Presennol

0%

Targed Presennol

0%

Tuedd

Canolfannau Cyswllt - Canran y Galwadau a Atebwyd

Gwerth Presennol

99%

Targed Presennol

98%↑
Tuedd

Gwella

Tuedd

Dim Newid



Yn Dirywio

Syniadau i Arbed Arian Adeg y Nadolig

Gall y Nadolig fod yn amser drud o'r flwyddyn â themtasiwn i orwario. Dyma ychydig o syniadau i helpu i wneud y Nadolig yn fwy fforddiadwy.

1 Ailanrhegwch

Os oes gennych anrhegion dieisiau o Nadolig y llynedd neu bethau nad oes arnoch eu hangen bellach, gwerthwch nhw i wneud arian neu os ydynt yn ddigon da, rhowch nhw'n anrhegion eleni.



2 Siôn Corn Cudd

Os oes gennych grŵp o ffrindiau neu gydweithwyr, nid oes eisiau i bawb brynu i'w gilydd. Dewch ynghyd a phrynu un anrheg yr un. Cytunwch ar swm gosod o, dywedwch, £5; lapiwch ef a bydd pawb yn cymryd un. Gwnewch hi'n fwy diddorol drwy bennu siop (siop yn y dref, siop elusen neu archfarchnad – mae'n syndod beth gewch chi!)



3 Rhowch amser yn anrheg

Cynigiwch wneud rhywbeth i rywun nad yw'n costio dim i chi ond sydd o werth iddynt hwy – gwarchod plant, garddio, addurno, smwddio, diwrnod allan i berthynas oeddrannus. Byddwch yn greadigol – printiwch docynnau rhodd neu gofynnwch i'r plant dynnu/liwio tocyn rhodd amser. Ffordd bersonol ac unigryw o roi amser yn anrheg.

4 Siopa'n Ddarbodus am Fwyd

Peidiwch â phrynu gormod o fwyd ar gyfer cyfnod y Nadolig. Am 24 awr yn unig (fan bellaf!) y bydd siopau ar gau ac nid oes neb yn hoffi ysgewyll beth bynnag! Gwnewch restr a chwiliwch o gwmpas am y prisiau gorau. Mae gan lawer o siopau lleol gynigion gwych yn ogystal â'r archfarchnadoedd mawr. Mae hyn yn ffordd berffaith o wneud yn siŵr bod gennych chi'r holl bethau da ond eich bod yn cwtogi ar wastraff.



5 Talwch eich biliau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o arian heibio i dalu'ch treuliau pwysicaf – rhent, morgais, biliau cyfleustod, ac ati. Er mai'r Nadolig yw hi mae eisiau talu'r rheini o hyd.

6 Clybiwch gyda'ch gilydd

Bydd llawer o fargeinion 2-am-1 yn eich annog i wario mwy nag y mae angen ichi. Beth am sefydlu grŵp cyfnewid bwyd ar Facebook gyda'ch ffrindiau/cymdogion? Gallwch chi ddod at eich gilydd i fanteisio ar fargeinion 2-am-1 a rhannu'r gostyngiadau! Mae hyn yn wych hefyd os ydych yn byw ar eich pen eich hun – mewn pacedi mawr y bydd llawer o drêts Nadolig yn dod (gormod i un), felly mae rhannu'n ffordd ddelfrydol o arbed arian.



7 Gwnewch gytundeb am anrhegion

Peidiwch ag ofni awgrymu eich bod yn peidio â phrynu i'ch gilydd eleni – mae'n debyg y byddant yn falch. Os oes gennych lawer o deuluoedd i brynu iddynt, prynwch lond tun mawr o siocledi iddynt i gyd gael ei rannu.

8 Cyfnewid Llyfrau

Mae gennym i gyd lyfrau yr ydym wedi'u prynu/wedi'u cael gan rywun ac nad ydym eto wedi'u darllen. Beth am drefnu cyfnewid llyfrau yn hytrach na phrynu anrhegion ar gyfer y Nadolig eleni? Efallai y cewch chi lyfr coginio neu nofel hyfryd newydd i'w darllen yn ystod y gwyliau. Mae hyn yn wych i blant hefyd.



9 Ewch dan gudd!

Wrth siopa ar-lein, mae'r cwcis a gedwir ar eich cyfrifiadur yn golygu bod gwerthwyr yn gwybod pa bethau y buoch chi'n edrych arnynt ac y gallant godi eu prisiau. Mae defnyddio'r Modd Incognito'n eu rhwystro rhag gallu gwneud hyn – a hefyd, mae'n cadw'r pethau y buoch yn edrych arnynt rhag ymddangos fel hysbysebion a sbwylio'r syrpreis os bydd eich teulu chi'n edrych ar eich cyfrifiadur pen-glin.

10 Cael rhywfaint o ddisgleirdeb!

Pwy nad yw'n hoffi ychydig o ddisgleirdeb adeg y Nadolig? Mae'r rhan fwyaf o siopau ail law yn llawn dillad Nadolig/gwisgoedd parti a siwmperi Nadolig hyfryd. Chwiliwch o gwmpas y siopau elusen yn eich tref chi i gael gwisg Nadolig am ryw gyfran fechan o'r pris a gostiai i'w phrynu'n newydd.